PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 7 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Ebrahim, Goddard, Jenkins, Kelloway, Lent a/ac Molik |

27 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ahmed ac Elsmore.
Dywedodd y Cynghorydd Cartrer y byddai'n hwyr.

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

29 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

30 : ADOLYGIAD GWASANAETH IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL

Croesawodd y Cadeirydd Claire Marchant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Myfanwy Moran, Rheolwr Gweithredol Iechyd Meddwl yng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion; Ian Wile, Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl, BIP Caerdydd a'r Fro; Dan Crossland, Arweinydd Clinigol/Projectau, BIP Caerdydd a'r Fro a Mark Jones, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, Iechyd Meddwl Oedolion, BIP Caerdydd a'r Fro i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd yn sâl ac nad yw'n gallu dod i'r cyfarfod. Gwahoddodd y Cadeirydd Claire Marchant i wneud datganiad a dywedodd fod y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol mewn sefyllfa gymharol gryf, yn canolbwyntio ar gleifion gyda gofal o ansawdd a staff sy'n cael eu cefnogi gan reolwyr i ddarparu gwasanaethau effeithlon. Mae angen gwaith integredig yn y gwasanaethau integredig a hefyd yn y gwasanaeth iechyd meddwl sylfaenol ac ataliol. Darperir trefniadau llywodraethu a strwythurau partneriaeth mewnol trwy'r BPRh a byddai Caerdydd yn datblygu gwasanaethau yn dilyn y cynllun peilot ym Mro Morgannwg.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar yr Adolygiad ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Cyfeiriodd yr Aelodau at flychau yn y gwasanaeth yn benodol yn yr hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lle bo rhwystrau ieithyddol a gofynnon nhw sut y byddid yn mynd i'r afael â hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes hanes cadarnhaol gan y gwasanaeth Iechyd Meddwl gyda'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae

gwybodaeth wedi'i chael gan Diverse Cymru ac ystyrir bod y broblem fwyaf yw cael dealltwriaeth trwy ofal sylfaenol ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae gobaith y gall Diverse Cymru a gofal sylfaenol gydweithio ar hyn ac i fynd i'r afael â phroblemau diwylliannol. Mae angen hyrwyddo iechyd hefyd, gyda deunyddiau'n targedu'r bobl iawn yn yr ardaloedd iawn. Credodd yr Aelodau y gellir hyfforddi pobl y'u hadnabyddir ac y ymddiriedir ynddynt yn y gymuned i gynorthwyo gyda hyn hefyd.

Roedd yr Aelod yn falch o weld cyfeiriad at y trydydd sector yn y cyflwyniad a cheision nhw sicrwydd y gellir cael yr adnoddau iawn ar gyfer hyn, oherwydd pe bai pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaeth y byddai ei gyllid yn cael ei stopio nes ymlaen, byddai problemau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod elfen o gyllid wedi'i ddiogelu, a fyddai hefyd yn cael ei gynyddu gan £500,000 eleni.

Gofynnodd yr Aelodau am integreiddio gyda'r Gwasanaethau Tai a'r Heddlu a dywedwyd wrthynt fod gan yr Heddlu bwerau i arestio pobl gyda gofid meddwl yn gyhoeddus. Mae'r Heddlu'n dweud bod lefelau o ofid meddwl yn cynyddu ac yn cymryd llawer o amser yr heddlu. Mae model arfer wedi cytuno arno gyda staff mewn tîm ar y cyd yng nghanolfannau galwadau'r heddlu gyda chyngor a gwybodaeth sy'n gam da ymlaen. Mae gan yr heddlu nod na ddylid rhoi cyngor a chymorth yng ngorsaf yr heddlu ac mae hyn gweithio'n dda. Edrychir i mewn i faterion megis trawsgludiad hefyd.

O ran tai, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai wedi cyfuno ac yn cydweithio i ystyried anghenion pobl. Mae llawer o faterion megis tenantiaeth, troi allan, cronni ac ati i'w hystyried hefyd. Mae angen gofal ychwanegol a chynlluniau lloches i bobl o bob oed; mae cymorth a grwpiau cymunedol hefyd yn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod pethau'n symud ymlaen ac mae hefyd cymorth gwaith cymdeithasol ar gyfer dyraniadau ym maes Tai.

Nododd yr Aelodau nad yw ysbyty Treláí'n cael ei ddefnyddio mwyach ac y gellir defnyddio ei safle mawr ar gyfer clinig amlbwrpas. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod llety addas at y diben megis y safle CRI ar gyfer yr Hyb Llesiant ar y gweill ond dylid ystyried yr holl opsiynau.

Trafododd yr Aelodau bobl agored i niwed yn cael eu twyllo a dywedwyd wrthynt am y broses y byddai'n cael ei dilyn mewn perthynas ag adrodd y mater ac opsiynau tai yn y dyfodol.

Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at newidiadau diwylliannol o ganlyniad i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gofynnon nhw am enghreifftiau o hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai enghraifft fyddai'r wybodaeth a roddwyd wrth gyfeirio, mae angen iddi fod yn fwy gadarnhaol yn gyffredinol ac ynghynt yn y broses; hefyd yr angen i wneud asesiad effeithiol, gweld risgiau'n wahanol a newid agwedd a diwylliant. Gofynnodd yr Aelodau a yw deddfwriaeth wedi cymhlethu pethau gormod ac a oes awydd mynd yn ôl i'r hanfodion. Dywedwyd yr Aelodau ei bod yn bwysig ei chael yn iawn y tro cyntaf, mae rhywfaint o gymhlethdod ac mae angen mwy o asesu'n aml ond mae'n bwysig buddsoddi'n fwy effeithlon ar flaen y llwybr, wyneb yn wyneb, gydag empathi a chyrraedd y pwynt iawn yn gyflymach, gan ddod â gwasanaethau'n agosach a dod i adnabod pobl.

Gofynnodd yr Aelodau, mewn perthynas â chyfathrebu, a yw gwaith llwyth achos yn gweithio more effeithiol ag y dylai fod. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod llawer mwy yn y trydydd sector nag sydd wedi'i sylweddoli yn flaenorol a bod angen gweithwyr integredig ond mae angen yr ystâd i roi lle iddynt, gan ei gwneud yn haws i bartneriaid y trydydd sector i rannu arfer da. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y llif gwaith newydd yn nwyrain Caerdydd gyda gweithwyr iechyd meddwl cymunedol ym meddygfeydd, felly'n rhoi cymorth ar y pwynt cyswllt cyntaf, sy'n gam ymlaen.

Nododd yr Aelodau fod cwmpas Iechyd Meddwl yn llawer ehangach a gofynnon nhw a deimlir bod y gwasanaeth yn datblygu ar y cyflymder mae angen iddo, yn benodol gan fod Caerdydd yn ddinas mor amrywiol gyda llawer o angen. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod buddsoddi yng ngofal sylfaenol yn allweddol, mae angen y buddsoddiad ar gyfer llesiant mewn meddygfeydd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod cysylltiadau gyda chynigion trawsffurfio, cefnogaeth gymunedol, rhagnodi cymdeithasol a datblygu cymunedol wedi'i seilio ar asedau sydd i gyd yn galluogi meddygon teulu i gyfeirio pobl atynt.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ddogfen Achos Newid a gofynnon nhw lle mae'n sefyll o ran gwaith y Bwrdd Iechyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau, ar ddechrau'r flwyddyn, fod y Bwrdd Iechyd yn cyfarfod â phartneriaid i edrych ar yr hyn i gyd maent yn ei wneud, gyda'r Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo gyda pennu'r cyfeiriad strategol. Gofynnodd yr Aelodau a oes llawer o feddwl ar y cyd gyda phartneriaid, a dywedwyd wrthynt fod arweinydd partneriaeth cryf o Lywodraeth Cymru a llawer o gyfeiriad a gwasanaethau craidd gyda'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol, gan ychwanegu mai cyfrifoldeb trefniadau partneriaeth lleol yw hi fel arfer i gyfuno elfennau'r strategaeth i sicrhau eu bod yn weithredol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr mai'r bwriad yw cael gwasanaeth o'r ansawdd gorau yn yr ardal leol a chymunedau yng Nghaerdydd a'r Fro, deall yr hyn sy'n bwysig i bobl a chynnig taith wella ac ystod o wasanaethau ar draws y llwybr cyfan.

Gofynnodd yr Aelodau lle mae'r agenda atal yn ffitio yn y gwasanaethau iechyd cymunedol a dywedwyd wrthynt fod trefniadau Bwrdd Iechyd y Gwasanaeth Cyhoeddus yn goruchwylio hyn ac yn edrych ar bopeth megis profiadau plentyndod niweidiol hyd at fod yn oedolyn ; cymorth i deuluoedd yn y gwasanaethau porth newydd; CAMHS yn dychwelyd i Gaerdydd a'r Fro i ddarparu darpariaeth ynghyd â'r porth a'r pwynt cyswllt cyntaf – i gyd â'r bwriad o atal uwchgyfeirio materion sydd eisoes yno. Nodwyd bod lefel isel o gymorth i bawb trwy Hybiau, Dydd Mercher Llesiant Llyfrgelloedd, Clybiau Ffilmiau ac ati sydd i gyd yn darparu rhyngweithio cymdeithasol ac ymgysylltu cymunedol. Cafodd yr Aelodau sicrwydd gan hyn a gofynnon nhw sut y deuir â'r rhain ynghyd, a dywedwyd wrthynt y byddai hyn yn cael ei wneud trwy gyllid arloesi a thrawsffurfio gan Lywodraeth Cymru a CAMHS hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wasanaeth i bobl 14-25 oed a bydd buddsoddiad yn y gwasanaeth.

Gofynnodd yr Aelodau pan gaiff y rhaglen ei rhoi ar waith ledled Caerdydd a dywedwyd wrthynt y bydd yn ystod y 18 mis nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am weithio gyda'r agenda allgáu cymdeithasol. Nodwyd bod allgáu cymdeithasol yn cael effaith wenwynig ar bobl ac mae'n bwysig adeiladu cymunedau gwydn lle y gall pobl gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ond yna'n gwella gyda chymorth ac ni ddylai hynny fod yn wasanaeth gydol oes. Byddai hyn yn cael ei gyfuno trwy'r gronfa drawsffurfio ar

gyfer clwstwr Caerdydd.  Bydd rhagnodi cymdeithasol hefyd ar waith ledled Caerdydd a'r Fro trwy'r gronfa hon, yn ogystal â gwasanaethau mewn Hybiau ac ati. Nododd yr Aelodau fod digon o arfer da i'w gael ond mae'n bwysig ei gysylltu i gyd ac iddo fod yn gynaliadwy.    Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol ym mhob rhan o'r gwasanaeth, cael help cyn allgáu cymdeithasol yn dechrau a thra bod gan bobl rwydweithiau cymdeithasol.

Credodd yr Aelodau, ar gyfer pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, ei bod yn hanfodol creu pecyn sy'n gweithio iddynt a'r gymuned, a bod ffyrdd a dilyniant yn bwysig iawn.  Dywedwyd wrth yr Aelodau am yr agwedd sgyrsiau cymdeithasol lle bo defnyddiwr y gwasanaeth yn cymryd rheolaeth dros eu bywydau eto ac i gyflawni hyn, mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol.

Nododd yr Aelodau, mewn perthynas â safleoedd, fod y Pwyllgor wedi clywed am y mater yn 2017 ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw newid wedi bod ac mae'r mater hwn bellach yn frys.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y materion wedi'u huwchgyfeirio'n ddiweddar trwy adroddiad ffurfiol a bod yr adroddiadau iechyd a diogelwch ar yr adeiladau wedi'u hatodi ato.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gyflymder newid a gofynnon nhw a oes cynllun gweithredu gydag amserlenni a dyddiadau/cerrig milltir.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rheolwr projectau sy'n sicrhau bod y project yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun, mae hefyd cyfarfod grŵp llywio a gefnogir gan yr awdurdod lleol.

CYTUNWYD:  Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

31 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau am ohebiaeth a dywedwyd wrthynt am yr ymatebion heb eu cael eto.

O ran yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen ar 'Atal Cyfranogiad Pobl Ifanc yng Ngweithgareddau Delio Cyffuriau', dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad drafft wedi'i gwblhau ac wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Gorchwyl ac y byddai'n cael ei gyflwyno o'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc iddynt ei ystyried a chytuno arno ym mis Rhagfyr 2018.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi cytuno'n flaenorol i wneud 1 ymchwiliad ar ddechrau'r flwyddyn.  'Llety a Gefnogir yn Unigol a Digartrefedd' oedd dewis pwnc yn y cyswllt hwn.  Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu, cododd Aelod o'r Pwyllgor fater mewn perthynas â lleoli pobl ifanc/oedolion mewn lleoliadau coleg allan o'r sir ac awgrymodd y dylai "Strategaeth Agosach at y Cartref" y Cyngor fod yn bwnc ymchwilio/craffu yn y dyfodol posibl.

Felly gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y pynciau "Agosach at y Cartref" a "Llety a Gefnogir yn Unigol a Digartrefedd" a chytuno ffordd ymlaen i ystyried yr eitemau hyn.

Trafododd yr Aelodau y ddau bwnc a theimlon nhw y dylid blaenoriaethu'r Ymchwiliad Agosach at y Cartref.  Cytunodd y Cynghorwyr Lent, Goddar, Molik a McGarry i fod yn Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y rhaglen waith a gwahoddwyd yr Aelodau i ymuno â'r Panel Perfformiad, sy'n cwrdd bob tri mis, os hoffen nhw.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu wrth yr Aelodau fod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi awgrymu bod Pwyllgorau'n cael cyfarfodydd cyn cyfarfodydd i fynd trwy Bapurau'r Pwyllgor a thrafod ffordd o ymchwilio.  Trafododd yr Aelodau hyn a chredodd y byddai ystafell yn cael ei chadw o 3.30pm ar ddiwrnodau cyfarfodydd Pwyllgor pe bai unrhyw faterion i'w trafod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Chwefror 2019 yn canolbwyntio ar ystyried y Cynllun Corfforaethol a Chynigion Cyllidebol ar gyfer 2019/20. Byddai holl Aelodau'r Cyngor yn cael cyfle i gael brîff ar y materion hyn. Byddai'r holl Aelodau'r Cyngor yn cael cynnig o friff ar y materion hyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ydynt yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant targedig ar y gyllideb a'r Cynllun Corfforaethol arnynt.  Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cyd-lynu ceisiadau am hyfforddiant pellach a gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r Prif Swyddog Craffu a oes angen hyn arnynt.

32 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni ddaeth dim i law.

33 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

34 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

5 Rhagfyr 2018 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm